"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] MAI, 1876. [RHIF 39.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Duw: Uwchlaw, Oddiamgylch, ac Oddifewn	49
Linnaeus, y Llysieuydd enwog	54
Gweithiau Llestri Caerwrangon	56
Gweithredoedd da yn gwella gweithredoedd drwg	58
Gofyniadau	61
Taith drwy Ewrop ac Asia	62
Trysorfa'r Gweddwon	65
Hen Dy Cwrdd y Nottais	66
Esgymmundod	67
Awgrym Defnyddiol i Undodiaid	67
Adolygiad y Wasg	68
Y Plentyn yw Tad y Dyn	69
Y Cadnaw nad oedd wedi colli ei gynffon	69
Marwgofion	70
Barddoniaeth	71

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, 16, COMMERCIAL-PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] MAI, 1876. [RHIF. 39.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

DUW: UWCHLAW, ISLAW, ODDIAMGYLCH, AC ODDIFEWN.

PREGETH A DRADDODWYD GAN Y PARCH. JAMES FREEMAN CLARKE, YN BOSTON, U. S., CHWEFROR 13EG, 1876.

"Ei gyflawnder Ef, yr hwn sydd yn cyflawni oll yn oll."—EPH. i. 26.

MAE'R Apostol Paul yn dweyd llawer o bethau a fyddem ni yn barod i alw yn Ollddduwiaeth (*Pantheism*), pe byddem ni yn clywed rhywun yn awr yn eu dweyd am y tro cyntaf. Dywed fod Duw yn cyflawni oll yn oll; ei fod yn gweithredu pob peth yn mhawb (1 Cor. xii. 6.); mae'n gweddio ar fod Duw "oll yn oll" (1 Cor. xv. 28); dywed fod Duw nid yn unig "goruwch oll," ond hefyd "drwy oll," ac "ynoch chwi oll" (Eph. iv. 6); mai "o hono Ef, a thrwyddo Ef, ac iddo Ef y mae pob peth" (Rhuf. xi. 36); ac mai "ynddo Ef yr ydym ni yn byw, yn symud, ac yn bod" (Actau xvii. 28). Mae y gosodiadau yma, a'u cymmeryd gyda'u gilydd, yn ymddangos fel yn dweyd mai Duw sydd yn gwneyd pob peth, mai Efe yw pob peth; fod y bydysawd yn deilliaw oddiwrtho Ef, ac yn dychwelyd ato; a'n bod ninau ein hunain yn cael ein hamgylchynu oddiallan, a'n llenwi oddimewn â'r Duwdod.

Ac etto, ar ol y cwbl, nid yw Paul yn cymmeryd y cam dinystriol o'r wir Ollddduwiaeth at yr Ollddduwiaeth gau sydd yn gwadu rhyddid dynol a chyfrifoldeb moesol; sydd yn dileu pob gwahaniaeth rhwng *right* a *wrong*, drwg a da; ac yn y diwedd, yn troi Duw i fod yn dynghedfen oruchaf, yn creu drwg a da, heb un amcan a bwriad. Ymddengys fel pe byddai ar ymyl y llynclyn hwnw, ar geulan y dibyn

ofnadwy, ond mae yn codi, ac yn ein trosglwyddo yn ddyogel i nefoedd dawel byd, lle mae y meidrol yn bodoli cystal â'r anfeidrol, lle mae Duw mor sylweddol a dyn, amser mor sylweddol a thragwyddoldeb, natur mor sylweddol ag ysbryd.

Y gwahaniaeth rhwng y ddau osodiad yw hwn: Mae yr Ollddu-wiaeth wir yn dweyd fod Duw yn mhob peth; mae'r Ollddu-wiaeth gau yn dweyd fod pob peth yn Dduw. Fe ddichon i'r gwahaniaeth ymddangos ar y cyntaf yn fychan; ond mae mewn gwirionedd yn anfeidrol.

Pwnc fy mhregeth i yw "Duw: uwchlaw, islaw, oddiamgylch, ac oddifewn." Ac yr wyf am ddangos fod ein bywyd ni, heb ryw ffydd sylweddol yn Nuw yn yr holl gyfeiriadau yma, yn wag, a'n gwybodaeth yn wybodaeth farw. Bod heb Dduw yn y byd, yw bod heb unrhyw wir foddlonrwydd. Nid oes gan y byd heb Dduw un ystyr; nid yw natur heb Dduw, ond peiriant dall; ac nid yw dyn heb Dduw, ond anifail a deall ynddo.

I. Dechreuad pob crefydd yw golwg ar ryw beth dwyfol *uwchlaw* i ni. Mewn pob cenedl sydd wedi codi yn uwch na'r sefyllfa anwaraidd, yr ydym yn cael fod yr hedyn crefyddol yma yn dechreu dadblygu ei hun. Maent i gyd yn edrych i fyny at rywbeth uwch na hwy eu hunain; rhywbeth i barchu ac i addoli. Ac wrth edrych i fyny fel hyn, maent yn cael eu derchafu eu hunain. Pe byddai yn dyfod ryw bryd yn farn gyffredinol mai dyn yw y ffaith uwchaf gweledig etto yn y bydysawd, mae'n ddigon tebyg y byddai diwedd yn cael ei osod ar gynydd dynol. A hyn am ddau reswm: Yn gyntaf, oblegyd fod eisiau arnom i gael prydferthwch, gwirionedd a daioni uwchlaw i ni i edrych i fyny ato fel *ideal*, fel amcan; rhywbeth i hiraethu am dano; yn ail, fe elai'r byd heb ddim ynddo yn uwch nâ ni ein hunain, yn rhyfedd o ddiflas ac annyddorol.

"Ofn yr Arglwydd," medd y Beibl, "yw dechreuad doethineb." Ofni Duw a chadw ei orchymynion yw holl ddyled dyn. Pan mae dynion yn peidio edrych i fyny at ryw allu dwyfol sydd, er ei fod yn anweledig ei hunan, yn gweled pob peth ag maent yn wneyd, maent yn colli dylanwad moesol mawr iawn. Mae hyd y nod teimlo ein bod yn mhresenoldeb *dyn* da, yn tueddu i'n gwneyd ni i ymddwyn yn well ein hunain. Yn mhresenoldeb boneddwr o ddyn, mae dynion difoes a halogedig yn dyfod yn weddaidd yn eu iaith a'u hymddygiad. Pa faint mwy raid fod y teimlad o'r presenoldeb dwyfol, sydd yn darllen y meddwl a'r galon, yn tueddu i atal drwg! Mae beth bynag ynte sydd yn meithrin ac yn cadw yn fyw yr argyhoeddiad yma yn dda. Ac o'r ffynnonell yma mae yn deilliaw ein hangen am eglwysi, addoliad cyhoeddus, a'r dydd Sul; mae y rhai hyn os nad ydynt yn gwneyd dim yn rhagor, yn tueddu i gadw yn fyw mewn cymdeithas y teimlad fod rhywbeth uwchlaw ni ein hunain—fod Duw uwchlaw i ni, gallu goruchel—i'r hwn yr ydym yn atebol; ar yr hwn yr ydym yn ymddibynu; i'r hwn mae'n rhaid i ni roddi cyfrif.

Pe byddai mewn gwirionedd yn bossibl i ddyn i wybod nad oes dim yn y bydysawd yn uwch nag ef ei hunan, dim i edrych i fyny ato,

dim i addoli, mor ddiflas, ac anfuddiol y byddai'r holl fyd yma yn ymddangos! Dim ond y gwagder diderfyn pryd bynag yr edrychom i fyny; dim goleuni dwyfol yno, dim cariad dwyfol, dim tynerwch nefol, dim braich gref i amddiffyn! Yr ydym yn tosturio wrth blant bychain, ydynt wedi colli eu tad a'u mam, ac heb un gofal amddiffynol oddiamgylch iddynt. Pa faint mwy amddifad y byddai'r hiliogaeth, wedi colli ei thad yn y nef! Diolch i Dduw ynte, am y reddf ddofn o barch ac o addoliad mae Ef wedi blanu yn yr enaid dynol sydd yn mhob oes, yn mhob gwlad, ac yn mhlith pob cenedl yn parhau etto i gyffroi y galon ddynol i waeddi allan am y Duw byw.

II. Ond nid parch ac addoliad yw yr oll o grefydd. Ofn yr Arglwydd yw dechreuad doethineb, ac nid yw yr ofn yma pan wedi ei gyfnewid i addoliad, ffydd ac ymddibyniaeth, byth yn cael ei ordyfu. Mae'n cael ei weddnewidio a'i urddasoli fel mae dyn yn esgyn i fyny; ond yn yr eneidiau uwchaf mae parch ac addoliad yn parhau i fod yn goron yr holl natur foesol. Etto nid dyma yr oll o grefydd. Mae'n rhaid i ni hefyd weled Duw *oddiamgylch* i ni, mewn natur, fel y bywyd sydd yn ei hysbrydoli. Mae dwy ffordd i edrych ar y byd. Gallwn ei ystyried fel darn rhyfeddol o beirianwaith, yn cael ei symud gan alluoedd deillion ydynt wedi eu cyssylltu gan ddeddf wrth gerbyd cynnydd. Gallwn edrych ar fater yn unig, a gadael meddwl dan sylw; gallwn weled y synwyrau yn unig a pheidio gweled yr enaid. Gallwn gymmeryd ein chwyddwydr ac edrych am y mân ronynau gwreiddiol ag mae eu cynnulliad damweiniol yn adeiladu i fyny ffurfiau byw. Gallwn gymmeryd ein hysbienddrych a chwilio am y nifwl dechreuol (*nebulae*) a roddodd fodolaeth i'r bydysawd mawr oddiamgylch i ni. Gallwn ddweyd, "Dyma'r cwbl ydwyf fi yn weled, ac o ganlyniad dyma'r cwbl sydd i'w wybod." *Matter* a *force*—dyma'r ddwy elfen oddiwrth y rhai mae'r bydysawd yma wedi dyfod. Nid yw gwyddor yn gwybod am ddim tuhwnt i hyn. Dyma un dull o edrych ar natur, ond yr wyf yn amheu ai dyma'r dull gwyddorol o edrych arni. Mae'n rhoddi i ni beiriant marw, ond nid byd a threfn ac unoliaeth yn rhedeg trwy'r cwbl. Ond yn sicr, mae'r bydysawd mor bell ag ydym ni yn gallu gweled yn gyfangorff o drefn gyda phob rhan yn ateb i bob rhan arall gyda'r canlyniad fod cydgordiad mawreddog yn llywodraethu yr oll. Gall fod rhan o'r bydysawd yn dyfiant bydoedd wedi dyfod allan o'r nifwl dechreuol, neu yn ddadblygiad holl ffurfiau bywyd o un hedyn gwreiddiol; yn gymhwys fel mae rhan o hono yn ddadblygiad parhaus planigion o hadau, ac anifeiliaid o wyau. Ond o ba le mae'r cydgordiad dwyfol yn dyfod? Naill ai oddiwrth feddwl neu o'r hyn nad yw feddwl. Nis gall fod un dybiaeth arall. Os nad meddwl sydd yn llywodraethu yn oruchaf dros natur, yna mae damwain yn oruchaf; ac mae llywodraeth damwain yn hollol wrthgyferbyniol i lywodraeth trefn. Deddf yw amlygiad allanol rheswm, ac mae'r cyfanfyd mawr yn aros oblegyd ei fod wedi ei rwymo i fyny gan ddeddfau sydd yn dal perthynas â'u gilydd. Credu mewn damwain yw gwadu trefn; ac mae deddf ddamweiniol neu drefn ddamweiniol yn wrthddywediad.

Ond er i reswm oddifewn i ni beidio dweyd wrthym yn y modd hyn am reswm tu allan i ni, mae syniad greddfol ynom sydd yn dangos fod bywyd cyffredinol yn llifo trwy holl natur. Mae ynom ni deimlad o rywbeth pur, melus, sanctaidd, mewn natur oddiallan—bywyd tawel yn y goedwig yn yr haf—agwedd dyner ddynol, fel pe byddai yn ffurfafen yr Hydref, a llais cuddiedig yn murmur yr awelon a'r ffrydiau. Mewn canlyniad yr oedd ein hynafiaid yn gosod duwies yn mhob coeden, ac wrth bob ffynnon, ac yn gweled gallu, mawredd, a phrydferthwch yn hanner cuddiedig yn mhob ffurf o natur. Nid ydym ni mwyach yn addoli y duwiesau yma, ond mae yr un reddf yn ymddangos yn ein barddoniaeth, ein celfyddyd a'n llenyddiaeth, sydd yn dangos i ni elfen ddwyfol yn holl natur Duw oddiamgylch i ni yn gystal á Duw oddifewn i ni.

III. Ond mae yn rhaid i ni fyned yn mlaen gam yn mhellach yn ein hymchwiliad am Dduw. Nid yw Efe yn unig uwchlaw ac oddiamgylch i ni, ond yr ydym ni fel mae yr Apostol yn dweyd, yn byw, yn ymsymud, ac yn bod ynddo. Hyny yw, ni ddarfu i Dduw ein creu ni yn unig ryw amser pell yn ol, a rhoddi i ni fodolaeth annibynol tuallan iddo, ond yr ydym ni ar bob moment yn cael ein gwneyd o'r newydd ganddo. Mae ein bodolaeth yn llifo yn barhaus o'r ffynnonell anfeidrol; mae ein bywyd yn dyfod yn *fresh* ar bob moment oddiwrth Dduw, fel mae pelydrau y goleuni yn deilliaw yn barhaus o'r haul; mae ein rhyddid i wneyd da neu i wneyd drwg yn cael ei roddi o'r newydd i ni o ddydd i ddydd. Duw yw y sylwedd mawr ar yr hwn yn unig mae y bydysawd a'r oll ag sydd oddifewn iddo yn gorphwys am byth; pob mater, pob nerth, pob ffurf, pob deddf, pob natur yn cael eu cynnal i fyny gan yr Ysbryd Anfeidrol. Ai nid oes hefyd reddf oddifewn i ni sydd yn cadarnhau hyn? Onid ydym yn teimlo nad ydym yn hunangynnaliol ond ein bod yn ymddibynol? Ein bod bob amser yn gorphwys ar rywbeth heblaw ni ein hunain? Ac os credwn ni fod yr amddiffyn yma yn gariad dwyfol ac anfeidrol, mor ddyogel yr ydym ni! Y fath foddlonrwydd, y fath dangnefedd sydd yn dyfod o'r argyhoeddiad sydd genym am y sylwedd anfeidrol hwn o dan holl arddangosiadau cyfnewidiol y byd—bywyd ein bywyd, y wybodaeth sydd yn ein meddwl, y nerth sydd yn ein hewyllys. Dyma yw sylfaen sicr annghyfnewidiol ein bodolaeth, ac heb yr argyhoeddiad yma mae bob amser yn eisiau y teimlad o ddyogelwch. Os nad Duw sydd yn cynnal pob bodolaeth, beth sydd? Er ein boddlonrwydd meddyliol mae'n rhaid i ni gael ffydd yn Nuw fel y sylwedd mawr sydd yn gorwedd o dan wyneb pethau allanol.

IV. Y pedwerydd cyfeiriad y gallwn geisio am Dduw yw oddifewn. Fe allwch dybied fod hyn yn gynnwysedig yn y gosodiad diweddaf. Ond yr wyf yn meddwl rhywbeth yn rhagor nâ hyny. Nid yn unig yr ydym ni yn Nuw, ond mae Duw hefyd ynom ni. Nid yn unig yr ydym ni yn gorphwys ar sylwedd dwyfol, ond yr ydym yn gymhwys i ddderbyn ysprydoliaeth ddwyfol. Mae eneidiau agored, sydd yn caru gwirionedd a daioni yn cael eu porthi yn anymwybodol gan y bywyd yma sydd yn llifo i mewn atynt oddiwrth Dduw. Ond gallwn ym-

borthi arno yn ymwybodol hefyd mewn graddau uwch, os na fyddwn ni yn diffodd yr ysbryd, ei dristau, neu ei wrthwynebu; ond yn lle hyny, yn rhodio yn yr ysbryd. Mae graddau yn y dylanwad yma, yn ymddibynu ar ein sefyllfa ni i'w dderbyn. 'Does dim yn dra-awdurdodol (*arbitrary*) ynddo. Mae Duw yn rhoddi ei ysbryd i bawb ydynt yn gofyn am dano. Nid oes dim hefyd yn ddisymwth, yn ddyeithr, ac yn gyffrous ynddo. Nid yw ond teimlad cynnyddol o dangnefedd, o nerth, o hunan-lywodraeth, o dymher dda, o ewyllys da, sydd yn dyfod i ni ac yn dyfod yn fwy cyflawn, fel yr ydym ni yn agor ein heneidiau i'w dderbyn.

Mae angen y dylanwad da yma arnom, ac mae ei angen arnom ni yn agos bob amser. Feallai ein bod ambell waith yn ddigon cryf i wneyd hebddo; ond yn gyffredin mae'n dyfod yn mhwys a gwres y dydd, yn nghanol gofidiau a blinderau bywyd, ddiffyg cydbwysedd ysbrydol. Gallwn feallai, gyflenwi y diffyg trwy ymdrech ein hewyllys ein hunain. Ond mae yn hawddach ac yn well i edrych i mewn ac i edrych i fyny, a gadael i fywyd uwch i lifo i mewn. Felly fe ddaw tangnefedd ar unwaith, tawel a chyflawn, a chydag Ef nerth a gallu i wneyd ein gwaith, nid â'r pen yn unig ond â'r galon hefyd. Gweled Duw fel hyn uwchlaw, oddiamgylch, ac oddifewn yw cael ein cyflawni â holl gyflawnder Duw. Dyma beth yw crefydd yn ei hystyr uwchaf. Mae'n gwneyd bywyd ar unwaith yn gyfoethog, yn gadarn ac yn gyflawn.

Ond gadewch i ni weled beth fyddai y byd heb ffydd yn Nuw—byd yn cael ei addysgu gan Atheistiaid. Yr wyf yn adnabod llawer o Atheistiaid, Atheistiaid damcaniaethol neu athrawiaethol, y rhai ydynt yn ddynion da iawn. Mae Mr. Bradlaugh, er enghraifft, nid yn unig yn Atheist, ond yn wrthwynebydd chwerw y gred mewn Duw, yn ymddangos i mi fel yn ddyn gonest, difrifol, yr hwn sydd yn credu yn wirioneddol y gallai'r byd gael ei ddiwygio yn fawr iawn gan Atheistiaeth, yn gymhwys fel yr oedd yr hen fardd Rhufeinig Lucretius yn credu o'i flaen ef. Gofynais i Mr. Bradlaugh unwaith i roddi anerchiad i blant ein Hysgol Sul, ac 'fe roddodd iddynt wers foesol dda iawn; ac wrth gwrs fel gwr boneddig gochelodd wneyd un cyfeiriad at grefydd. Ond y cwestiwn yw, nid a ydyw Atheistiaid yn ddynion da neu beidio, ond beth ddeuai o'r byd yma heb Dduw.

Pan mae ysgogiad wedi ei roddi i rywbeth mae'n parhau i symud, ar ol i'r gallu cymhelliadol ddarfod. Mae hyn yn wir yn foesol ac yn naturiol. Fe â rhes o gerbydau yn mlaen ar hyd y gledrffordd am gryn amser ar ol i'r agerbeiriant gael ei gymmeryd ymaith. Felly yn mhell ar ol i grefydd ddarfod bod yn allu cymhelliadol i ddaioni, fe a cymdeithas yn mlaen yn ei harferion moesol a'i syniadau moesol blaenorol. Mae gan y dyn sydd a'i ben yn llawn Atheistiaeth, ei galon yn llawn crefydd ag mae wedi etifeddu oddiwrth ei hynafiaid duwiol yr hon sydd yn rhedeg yn ei waed, ac yn ymsymud gyda churiadau ei galon. Ond y cwestiwn yw, beth ddeuai o'r byd heb Dduw.

(I'w barhau.)

LINNAEUS, Y LLYSIEUYDD ENWOG.

Ganwyd Linne neu Charles Linnaeus yn 1707 yn Rashalt, yn Sweden. Mab i offeiriad tlawd oedd. Dangosodd yn foreu iawn ryw serch neillduol at lysiau; ac mewn natur mor deimladwy a'i eiddo ef, yr oedd y serch yma yn ddiambeu yn cael ei feithrin gan gyfnewidiadau sydd yn y tymhorau yn yr ardal ogleddol lle'r oedd yn byw—tymhorau ag oeddynt yn myned ac yn dyfod megys dan ddylanwad rhyw swyn. Yr oedd yn awyddus am wybodaeth, ac nid ymfoddlonai ar wybodaeth ail law. Yr oedd y duedd yma—y gwir addewid am ddyn mawr—a'r crwydriadau hirion i'r rhai yr oedd y duedd yma yn ei arwain, yn cael eu gosod i lawr gan ei dad fel arwyddion o gymmeriad dioglyd ac anystyriol, ac yr oeddynt yn ei flino gymmaint fel y bwriadai un amser brentisio ei fab gyda chrydd. Ond darfu i ofid dwys y gwr ieuanc a'i ddeisyfiadau taerion beriiddo osod y bwriad hwnw o'r neilldu, fel y caniataodd iddo fyned i astudio meddyginiaeth.

Yn Mhrif Ysgol Upsal, lle'r aeth, y darfu i nerth ei alluoedd meddyliol yn gyntaf ymddangos. Yma y darfu iddo ymdrechu yn erbyn llawer iawn o anhawsderau, heb fawr llyfrau, na dillad, ac heb ddigon o fwyd. Pan na allasai brynu llyfrau, benthyciai hwynt, a phan yr oedd ei esgidiau wedi treulio, cyweiriai hwynt â rhisgl coed, fel na byddai iddo golli un cyfleusdra i ddilyn ei hoff efrydiaeth yn y caeau. Ar ol taith i ardaloedd anial Lapland, taith a ymgymmerodd dros yr "Upsal Academy of Science," i geisio dysgu rhywbeth am blanhigion a *minerals* y wlad hono, cawn Linnaeus ar ol ei ddychweliad yn darlithio yn y brif ysgol, lle ychydig o'r blaen yr oedd wedi bod yn fyfyriwr. Wrth gymmeryd y cam hwn, ymddengys i'w frwdfrydedd gael y trechaf ar ei ddoethineb. Tybiai Linnaeus, fel y tybia llawer dyn ieuanc, mae gwybodaeth o'r pynciau angenrheidiol, a'r gallu i gyfranu'r wybodaeth hono, ddylai fod yr unig *dest*. Ond nid felly y tybiai Dr. Rosen, yr hwn oedd wedi cael allan nad oedd neb, yn ol un o ddeddfau y brif ysgol, a hawl ganddo i ddarlithio, os fel Linnaeus, heb gymmeryd ei *ddegree*. Dangosodd Dr. Rosen gan hyny fod ei ddarlithio yn wrthryfel yn erbyn yr awdurdodau, a dywedodd, tra nad oedd yn ddim i ddodi dyn ieuanc o dalent i lawr, ei fod yn ddinystr i dori deddf. Profodd Dr. Rosen yn fuddugwr, ac ymadawodd y naturiaethwr ieuanc yn nghyd â rhai o'i ysgolheigion ar wib-daith wyddorol i dalaeth Dalecarlia.

Yn Fahlun, prif ddinas y dalaeth, daeth i adnabyddiaeth â Dr. Musaeus, physigwr yn y lle, dyn dysgedig, hoff o lysiau, ac yn meddu casgliad mawr o bob math o honynt. Ar ei ymweliadau â'r boneddwr yma, cyfarfyddodd yn fynych â'r ferch hynaf, boneddiges wylaidd a charuaidd, ac o'r diwedd syrthiodd mewn cariad â hi gyda holl serchogrwydd a dyfnder ei natur. Hithau a ddychwelodd ei gariad, fel y darfu iddo geisio caniatad Dr. Musaeus, iddynt ymuno â'u gilydd. Ond yr oedd gan y Doctor, er ei fod yn caru y dyn ieuanc, ormod o synwyr a sobrwydd oedran; ac wedi gwneuthur cyfeiriad at ansicr-

wydd ei ennillion, cynghorodd ef i aros am dair blynedd, ac y byddai yn sicr o'i gydsyniad y pryd hwnw, os byddai mewn sefyllfa i briodi. Allasai Linnaeus ddim llai nâ gweled priodoldeb y cynghor, ac yr oedd yn meddu digon o ymlyniad a *gallantry* i weithredu arno. Ac wedi ffarwelio â Miss Musaeus, efe a ymadawodd tua Leyden, gyda chalon ddewr a gobeithiol, ac yn gwbl benderfynol o ennill ei *ddegree* a gorphen ei efrydiaethau meddygol.

Pa bryd erioed y darfu i synwyr a phenderfyniad, dewrder a hunanymwadiad fethu? Yr oedd gan y dyn ieuanc yn awr amcan eglur o'i flaen, ac ymosododd i'w ddwyn i gyflawniad gydag ymdrech diflino. Darfu i'w zel gyda'i efrydiaeth dynu sylw, a'i ymddygiad caruaidd a boneddigaidd ennill cyfeillgarwch rhai o'r bobl enwog. Cymmerodd ei *ddegree*, a chafodd drwydded i ddilyn y gelfyddyd feddygol, a chafodd ei bennodi yn feddyg teuluaidd i'r Burgomaster yn Amsterdam. Yn ystod y ddwy flynedd y bu yn dal y swydd yma, ysgrifenodd ddau lyfr dysgedig; ac yn ei ymchwiliadau ar ol y planhigion, talodd ymweliad â Lloegr a gwledydd ereill.

Mae un dygwyddiad bychan mewn cyssylltiad â'r ymweliad hwn yn rhoddi eglurhad tarawiadol o'i gariad at y prydferth, yn gystal â duwioldeb melus a naturiol ei feddwl.

Pan yn teithio un diwrnod dros un o'r cwminoedd Seisnig, tynodd llwynyn o eithin yn ei lawn flodau ei sylw. Darfu i ymddangosiad y rhyfeddod llysieuol hwn, yr hwn oedd yn anadnabyddus yn ei wlad ei hun, ei orchfygu yn llwyr. Syrthiodd ar ei ddeulin, a diolchodd i Dduw am yr olygfa, a thraethodd ei alar fod ei Sweden anwyl yn amddifad o'r fath addurn gogoneddus.

Ar ol talu ymweliad â Paris, dychwelodd i'w wlad enedigol, ac ymsefydlodd yn Stockholm. Ar y cyntaf, yr oedd y galw arno fel meddyg yn llai nag y dysgwyliasai, ond wedi dygwydd gwella'r frenines o beswch, ni fynai y bobl gyfoethog un meddyg arall ac fe ddaeth yn ffasiynol. Cafodd ei bennodi yn feddyg i'r *Admiralty*, ac yn llysieuydd i'r brenin. Wedi cael felly incwm sefydlog, efe a briododd Miss Musaeus, â'r hon yr oedd wedi bod yn ymrwymedig am bum mlynedd. O'r amser hwn, yr oedd arwyddion anrhydedd yn dyfod yn lluosog ato. Cafodd gynnyg ar y gadair feddygol yn ei famysgol yn Upsal, ond darfu iddo newid y gadair yma am y *botanical chair* yn yr un sefydliad, yr hon oedd yn cael ei llanw gan ei wrthwynebydd Dr. Rosen. Felly y gwellwyd y clwyf, ac y cafodd *genius* yn y diwedd y trechaf. Daliodd Linnaeus y broffeswriaeth yma am 37ain o flynyddau, a thua therfyn y cyfnod hwnw, cyhoeddodd ei lyfr mawr; yn cynnwys darluniad o bob planhigyn adnabyddus, ac wedi eu trefnu ar y cynllun a adnabyddir yn awr wrth ei enw ef. Yn y flwyddyn y darfu i'w lyfr ymddangos, cafodd ei wneuthur yn Farchog y Seren Ogleddol, anrhydedd nad oedd wedi ei rhoddi erioed o'r blaen i lenor nac athronydd; ac yn mhen saith mlynedd arall dyrchafwyd ef i blith y *nobility*. Bu fyw yn gyssurus iawn ac yn y mwynhad o'r gwahanol arwyddion anrhydedd yma hyd Ionawr, 1778, pan y bu farw o *apoplexy*. Bydded i ni oll efelychu ei serch at natur; a cheisio ei chwaeth bur; a meddu

ei zel, ei gyfrwysdra a'i hunanymwadiad; a chael ein cynhyrfu a'n calonogi gan ei lwyddiant. Onid yw ei fywyd yn dysgu y gall daioni, doethineb a dyfalbarhad orchfygu pob peth? O.

GWEITHIAU LLESTRI CAERWRANGON.

Ar y 12fed o Hydref, yn y flwyddyn 1875, aethum i a chyfeillion ereill gyda'r tren i Worcester, yn benaf er mwyn cael gweled y *Royal Porcelain Works*. Yr oeddym yn ddeg mewn nifer, a chawsom oll hyfrydwch mawr yn yr hyn a welsom, mwy ond odid na fydd neb yn debyg o gael wrth ddarllen yr hanes yn unig. O bossibl, fodd bynag, y gall darlleniad yr hanes gynhyrfu cymmaint o ddyddordeb ag i beri dymuniad ar ran rhai o ddarllenwyr yr Ymofynydd am gael gweled y gweithiau eu hunain.

Mae'r gelfyddyd o weithio llestri pridd yn cyrhaedd yn mhell yn ol i niwl a thywyllwch hanes dynoliaeth. Ceir amryw gyfeiriadau at y gelfyddyd yn y Beibl. Mae rhai yn edrych gyda dyddordeb mawr ar hanes y gelfyddyd yma. Mae hanes pob celfyddyd dybygwn yn ddyddorol—yr hanes o'r dechreuad yn y pethau bychain a syml trwy'r gwahanol gyfnewidiadau a gwelliantau a gymmerant le o oes i oes. Am y gelfyddyd sydd yn bresenol dan ein sylw dywed y dysgedig Broignart—"Nid wyf yn gwybod am yr un gelfyddyd sydd yn rhoddi yn yr astudiaeth o'i hymarferiad, ei threfn, a'i hanes gymmaint o ystyriaethau dyddorol ac amrywiol a'r gelfyddyd o wneuthur llestri." Yr oedd yr Aifftwyr yn ddeheuig iawn gyda'r gwaith yma.

Ceir y defnyddiau o'r rhai y gwneir y llestri o wahanol barthau—math o glai a chareg a elwir *China Clay* a *China Stone* o Cornwall, *Felspar* o Sweden, *Fireclay* o Stourbridge a Broseley, *Marl* o Broseley, *Flints* o Dieppe a Gravesend, ac esgyrn o America a manau ereill. Mae'r defnyddiau yma yn cael ei malu i gyd yn gyntaf. Mae'r melindy yn lle helaeth iawn. Mae'r amser a gymmerir i falu y gwahanol ddefnyddiau yn amrywio o ddeuddeg awr i chwe' diwrnod; a gellir barnu pa mor fân y mae'n eisieu eu malu wrth ystyried ansawdd y *silk lawn* trwy'r hwn y mae'n rhaid iddynt basio, bob tipyn o honynt. Mae'r *silk lawn* yn rhifo rhyw 4000 o dyllau i'r modfedd ysgwar. Y prif ddefnyddiau yn y *Porcelain* ydynt *china clay, china stone, calcined flints, felspar*, a *calcined bones*; yn y *Glaze,—borax*, plwm, *flint, Cornish stone, &c., &c.* Gwelir y gwahanol ddefnyddiau yma yn y melin dŷ.

Yn y "Slip House," derbynir y defnyddiau o'r melindy i *reservoirs* mawrion, ac yma y mae y llestri yn y rhai y maent yn cael eu cymmysgu. Yn y llestri hyn y mae *shaft*, ar hwnw y mae breichiau, ac ar y breichiau y mae *magnets*, y rhai ydynt yn cael eu gweithio yn ol ac yn mlaen trwy'r defnyddiau er mwyn symud ymaith bob tamaid o

haiarn a ddichon fod ynddynt. O'r llestri yma mae'r defnyddiau yn pasio trwy amryw wegri, y rhai ydynt yn cael eu gweithio gan *machinery*. Wedi hyn y mae'n cael ei bwmpio i'r *clay press*. Peiriant yw hwn lle mae'r *slip* yn cael ei dderbyn i ystafelloedd, y rhai ydynt wedi ei leinio â chydau llydain; a'r dwfr yn cael ei wasgu allan gan *hydraulic pressure*, nes yw'r defnyddiau yn dyfod o ran tewder yn debyg i *paste*. Wedi hyny y mae'n cael ei droi a'i drafod yn ol ac yn mlaen, yn debyg fel y gwneir a thoes, a thrwy hyny y mae'n cael ei wneuthur yn *tough*. Wedi ei ddwyn fel yma i'r ansawdd priodol, y mae'n barod i law'r gweithiwr i'w droi i'r pwrpas y myno. Gwneir y llestri crynion, cwpanau, basynau, tebotau, &c.—y llestri plaen,—ar y

POTTER'S WHEEL.

Mae'r peiriant hwn yn hen iawn. Ceir darluniau o honó ar y priddfeini yn Thebes yn yr Aifft, a bernir fod y rhai hyny wedi eu gwneuthur rhyw 3,800 o flynyddau yn ol. Mae'r peiriant wrth droi yn peri i'r clai i godi i fyny, yr hyn sydd yn rhyw fodd yn galluogi'r gweithiwr (*potter*) i droi'r clai i'r pwrpas y myno. Gweithir y clai ar y *wheel* yn awr yn gywir yr un modd a chynt, mae'n debyg; yr unig wahaniaeth sydd yn y dull o droi y *wheel*. Yn yr Aifft, troid y *wheel* â'r llaw chwith. Yn China, troir ef mewn llawer ffordd—â'r liaw, â'r droed, ac â'r strapen. Ar y Cyfandir mae'r gweithiwr yn ei droi â'i droed. Yn y wlad yma troir ef weithiau gan fachgen, neu gan beiriant ac wrth *steam*. Mewn amseroedd diweddar, gwneir y rhan amlaf o'r llestri dan sylw mewn *moulds*, y rhai ydynt nid yn unig yn sicrhau unffurfiaeth mwy cywir, ond hefyd yn caniatau gosod patrynau ar y wyneb, heb ychwanegu yn ddiangen at y gwaith. Wedi ffurfio y *lining*, fel y gelwir ef, mae'n cael ei wasgu i'r *mould;* ac yn mhen ychydig y mae'n sychu digon nes yw'r clai yn dyfod yn rhydd; wedi hyny mae'n cael ei gymmeryd allan, ac mae'n barod i'r

TURNER,

yr hwn sydd yn ei osod ar *lathe*, ac yn ei drin yn debyg iawn fel y triniai bren neu fetel. Y mae'n gorphen yr ymyl â'r droed, ac os angen y wyneb allanol. Ac wedi cwblhau ffurf y cwpan y mae'n ei basio i'r

HANDLER.

Gwneir yr *handles* gan mwyaf mewn *moulds*, a gofynant yr un fath driniaeth mewn trimio a ffitio â'r rhanau eraill. Gwneir hyny yn gyflym iawn gan y gweithiwr, yr hwn yn nesaf sydd yn cyssylltu yr *handle* a'r llestr à thipyn o glai hylif a elwir *slip*. Mae'r *slip* yn actio fel *cement*, a chan ei fod o'r un defnydd, maent yn cael eu huno à'u gilydd pan y maent yn y ffwrn.

Gwneir *plates* a llestri cyffelyb mewn ffordd wahanol—ffordd a elwir *flat pressing*. Pwysir y clai yn belau, y rhai ydynt yn cael eu pwyo allan yn debyg i dorth geirch. Mae'r *mould* sydd yn rhoddi ei ffurf i'r plat neu'r sowser yn cael ei osod ar *lathe* a elwir *jigger*, ac ar y *mould*

hwn gosodir y dorth o glai, a gwesgir ef yn galed ar y *mould* tra mae'n troi yn gyflym iawn. Yna mae'r gweithiwr yn cymmeryd twlsyn a elwir *profile*, sydd wedi ei ffitio wrth ymyl y *mould*, ac wrth wasgu hwn yn y canol y mae'n peri iddo godi i fyny yn gylch (*circle*) perffaith. Yna gosodir y *mould* a'r *plate* arno yn y *stove* i sychu. Pan y mae'r gwres wedi peri i'r plat ymryddhau oddiwrth y *mould*, y mae'n cael ei godi i bant, ac yn cael ei orphen fel yma yn ei gyflwr hanner sych. Wedi hyny mae'r plat yn barod i'w osod yn y ffwrn i'w losgi, a'r *mould* yn barod i dderbyn un newydd.

(*I'w barhau.*)

GWEITHREDOEDD DA YN GWELLA GWEITHREDOEDD DRWG.

Yn oedd fy nhad yn eistedd allan o flaen y tŷ, a'i het wellt dros ei lygaid, a'i lyfr ar ei arfed. Yn ddisymwth, dyma lestr blodau glas a gwyn hardd iawn, yr hwn oedd ar arfed ffenestr y llofft, yn cwympo i'r llawr ac yn briwio'n ganddryll wrth draed fy nhad. "Yr anwyl!" ebai fy mam, yr hon oedd wrth ei gwaith yn y drws, "fy llestr blodau a werthfawrogwn gymmaint! Pwy allasai wneuthur hyn? Mari! Mari!" Gosododd Mari ei phen allan drwy y ffenestr, ac attebodd yr alwad, a daeth i lawr a'i hanadl yn ei gwddf.

"O!" ebai fy mam, yn drist iawn, "buasai yn well genyf golli yr holl flodau yn y *greenhouse* ar y deif-wynt diweddaf. Y *geranium* a feithrinais fy hunan, a'r llestr blodau anwyl a brynedd fy ngŵr i mi ar ddydd pen fy mlwydd diweddaf; rhaid mai'r plentyn drygionus yna wnaeth hyn."

"Ac os torodd ef ma'am," ebai Mari, "anlwc pur ydoedd; yr oedd yn sefyll fel yma, ac ni fwriadodd ef ericed. Do fe, Master Sisty?" a sisialodd, "siaradwch, neu bydd dada'n grac."

"Wel," ebai fy mam, "efallai mai anlwc ydoedd. Cymmerwch ofal yn y dyfodol, fy mhlentyn. Mae'n ddrwg genych mi welaf i flino'ch mami gymmaint. Dyma gusan i chwi; peidiwch gofidio."

"Na mami, peidiwch fy nghusanu; nid ydwyf yn ei haeddu. Mi wthiais y llestr allan yn bwrpasol."

"Ah! a pha'l am?" ebai fy nhad, gan ddyfod i fyny.

"Er mwyn difyrwch," meddwn i, gan hongian fy nhen i lawr, "er mwyn cael gweled sut yr edrychech dada, a dyna'r gwir i chwi; 'nawr curwch fi; dewch, curwch fi."

Plygodd fy nhad i lawr, a chododd fi i'w fynwes. "Fy machgen," ebai fe, "yr ydych wedi gwneuthur yn ddrwg iawn; cewch adgyweirio'r drwg drwy gofio drwy'ch holl fywyd i'ch tad fendithio Duw am roddi

iddo fab a ddywedodd y gwir er gwaethaf ofn. O Mari, y celwydd nesaf o'r fath yma a geisiwch ddysgu i'r plentyn, ac yr ydym yn gwahanu am byth!"

Yr oedd gan fy nhad ffordd o awgrymu, nid addysgu. Dodai bethau yn fy mhen, ac yna gadawai iddynt weithio allan eu hunain. Cyn hir ar ol y dygwyddiad a adroddais uchod, cefais gan gyfaill i fy nhad, fel rhodd, flwch gwerthfawr o *ivory*, wedi ei baentio a'i oreuro. Y blwch yma oedd fy hyfrydwch mawr—blwch *dominoes* ydoedd. Ni flinwn byth chwareu â Mari, a chysgwn â'r blwch dan fy ngobenydd.

"Ah!" ebai fy nhad un dydd, "yr ydych yn caru hwna yn well na'ch holl deganau."

"O ydwyf dada."

"Byddai'n ddrwg genych pe gwnai eich mam daflu y blwch yna allan drwy y ffenestr, a'i dori er mwyn difyrwch." Edrychais ar fy nhad yn drist iawn, ond ni wnaethum un ateb.

"Ond carech yn fawr efallai," ebai ef, "pe gwnai un o'r teuluod teg a ddarllenwch am danynt, ddyfod, a newid y blwch, a'i wneuthur yn *geranium* hardd, mewn llestr blodau glas a gwyn hardd, a phe caffech y pleser o'i osod ar arffed ffenestr eich mam."

"Carwn, yn wir," meddwn i, mewn hanner llefain.

"Fy machgen anwyl, yr wyf yn eich credu; ond nid yw dymuniadau da yn gwella gweithredoedd drwg." Ar hyny cauodd y drws ac aeth allan.

Nis gallaf ddywedyd wrthych y penbleth a'r dyryswch yr oeddwn ynddo wrth geisio gwneuthur allan beth oedd meddwl fy nhad. Ond hyn a wn, na ddarfu i mi chwareu *dominoes* yn rhagor y diwrnod hwnw. Dranoeth cafodd fy nhad fi yn eistedd, wrthyf fy hun, dan goeden yn yr ardd; safodd, ac edrychodd arnaf yn sefydlog iawn a'i lygaid mawrion dysglaer.

"Fy mab," meddai efe, "yr wyf yn myn'd i gerdded i'r dref, ddeuwch chwi? A beth pe baech yn dwyn eich blwch gyda chwi."

Rhedais i mewn am y blwch; yn falch iawn o'r cyfleusdra i gerdded gyda fy nhad ar yr heol fawr, a ffwrdd a ni.

"Dada," meddwn i yn mhen tipyn, "nid oes dim teuluod yn awr."

"Beth am hyny, fy mhlentyn?"

"Sut, gan hyny, y gallai fy mlwch gael ei gyfnewid yn *geranium*, a llestr blodau glas a gwyn?"

"Fy mab," meddai fy nhad, "mae pob un sy'n awyddus am fod yn dda yn cario dau o deuluod gydag ef, un fan yma," gan osod ei law ar fy nghalon, "ac un fan yma," gan osod ei law ar fy nhalcen.

"Nid wyf yn deall dada."

"Gallaf aros, fy machgen, nes y deuwch i ddeall."

Safodd o flaen tŷ garddwr, ac ar ol edrych dros y blodau, cymmerodd sylw neillduol o *geranium* dwbl mawr.

"Mae hwn yn harddach na'r un oedd eich mami mor hoff o hono. Faint yw'r pris, Syr?"

"Dim ond saith a chwech," ebai'r garddwr.

Botymodd fy nhad ei boced i fyny.

"Alla' i ddim fforddio heddyw," meddai'n dawel, ac aethom allan.

Wrth ddyfod i mewn i'r dref, darfu i ni stopio wrth siop lestri.

"A oes genych lestr blodau tebyg i'r un a brynais genych rai misoedd yn ol? Ah, dyma un wedi ei farcio yn dri a chwech. Wel, pan ddaw pen blwydd eich mam, rhaid i ni brynu un arall iddi; mae hyny amryw fisoedd i aros, Master Sisty, ond y mae'r gwirionedd sydd yn blodeuo drwy'r flwyddyn yn well nâ *geranium*, a gair nad yw byth yn cael ei dori yn well nâ llestr pridd."

Darfu i fy mhen, yr hwn oedd wedi ei ostwng, godi etto; ond darfu i nerth fy llawenydd yn fy nghalon fod bron a fy mogu.

"Yr wyf wedi galw i dalu eich *bill*," ebai fy nhad, wrth fyned i mewn i siop, lle gwerthid pob math o deganau pert. "Ac yr wyf yn meddwl," ebai efe, "y gall fy machgen bach yma ddangos i chwi harddach engraifft o waith Ffrengig na'r *workbox* a brynodd fy ngwraig gyda chwi y gauaf diweddaf. Mae'n dda i chwi wybod bob amser, fy machgen, beth ydyw gwerth rhywbeth, pe dygwyddech fod am ei werthu. Pe dygwyddai i'r bachgen bach yma flino ar ei degan, beth roddech iddo am dano?"

"Wel, syr," ebai'r siopwr, "allwn i ddim rhoddi mwy nâ deunaw swllt am dano, os na wnaiff y gwr ifanc gymmeryd rhai o'r pethau pert yma yn gyfnewid."

"Deunaw swllt!" ebai fy nhad. "Chwi roddech gymmaint; wel, fy machgen, pa bryd bynag y byddoch wedi blino ar eich blwch, yr wyf yn rhoddi fy nghaniatad i chwi i'w werthu." Talodd fy nhad y *bill*, ac aeth allan; oedais inau ychydig ar ei ol, ond daliais ef ar yr heol.

"Dada, dada," meddwn i, gan glapio fy nwylaw, "gallwn brynu y *geranium*; gallwn brynu y llestr blodau;" a thynais lonaid dwrn o arian o fy mhoced.

"Oni ddywedais yn iawn," ebe fy nhad, gan dynu ei napcyn dros ei lygaid. "Yr ydych wedi cael gafael yn y teuluod."

O mor falch oeddwn, mor llawen! Wedi gosod y llestr a'r blodeuyn ar arffed y ffenestr, arweiniais fy mam at y fan.

"Ei waith ef ydyw, ei arian ef," ebai fy nhad. "Mae'r gweithredoedd da wedi gwella'r gweithredoedd drwg!"

"Beth!" ebai fy mam, wedi clywed yr hanes, "y blwch *ivory* yr oeddech mor hoff o hono: ni a awn y foru, ac a'i prynwn ef yn ol, os costia yn ddwbl i ni."

"A gawn ni ei brynu yn ol, Sisty?" ebai fy nhad."

"O na, na, na! gwnai hyny spwylio'r oll," meddwn i, gan gladdu fy ngwyneb yn mynwes fy nhad.

"Fy ngwraig," ebai fy nhad," yn ddifrifol iawn, "dyma fy ngwers gyntaf i'r plentyn,—sancteiddrwydd a dedwyddwch hunanymwadiad; na cheisiwch ddadwneyd yr hyn a ddylai fod yn wers iddo hyd ddydd ei farw."

BULWER.

GOFYNIADAU.

I BA ddyben ydych yn byw? Beth ydyw yr amcan mawr ydych yn amcanu ato? A ydych yn ymdrechu rhyngu bodd Duw? A ydych yn gwneyd eich goreu i ddwyn oddiamgylch ddaioni eich cydgreaduriaid? A ydych yn llafurio i hyrwyddo lledaeniad yr efengyl, gwybodaeth a duwioldeb? Beth ydych wedi wneyd yn ystod yr wythnos ddiweddaf? Beth ydych wedi wneyd er daioni eich cydgreaduriaid yn ystod y flwyddyn ddiweddaf? Pa gymmaint o ddaioni ydych wedi wneyd oddiar pan ydych wedi dyfod yn broffeswr Cristionogaeth? Beth garech fod wedi wneyd, ac ymhyfrydu yn y cyflawniad o hono? A ydych chwi yn teimlo dyddordeb yn addysg, ac yn iechydwriaeth eich cyd-ddynion? A ydych un amser yn teimlo yn ofidus pan ydych yn meddwl am y lluaws mawr o'ch cyd-ddynion sydd yn gorwedd mewn anwybodaeth a thrueni? Onid ydych yn teimlo unrhyw bryder ac awydd i'w haddysgu, eu hadeni, a'u gwneyd yn ddoeth, yn dda a dedwydd? A ydych un amser wedi darllen hanes yr Iesu? A ydych wedi astudio ei gymmeriad? A ydych yn gwybod mai yr Iesu yw ein hesiampl, ac mai Efe yw y patrwn o'r hyn y dylai ei ganlynwyr fod? A ydych chwi yn debyg i Grist? A ydych yn byw yn y cyflawniad o'r un gwaith ysprydol ag Ef? A ydych yn feddiannol ar yr un tueddiadau ag Ef? A ydych mor selog ag Ef dros ogoniant Duw? Ai eich prif amcan yw gwneuthur ewyllys Duw, a chyflawni y gwaith mae wedi roddi i chwi? A ydych yn gyfaill mor wirioneddol a thrwyadl i ddynolryw ag oedd yr Iesu? A ydych yn teimlo hyfrydwch mewn gwneuthur daioni; ac a ydych yn teimlo yn ofidus pan na ellwch wneyd rhagor? A ydych yn arfer holl alluoedd y meddwl, y llaw, y galon a'r tafod mewn ymdrechion i wneyd daioni yn y cylch yr ydych yn troi ynddo? A oes arian genych yn gorwedd yn segur? A ydych yn gwastraffu peth o honynt? A ydych yn gwario llawer mewn pleserau cnawdol a diraddiol, ynte a ydych yn gwneyd y defnydd goreu o honynt i ychwanegu at eich gwir hapusrwydd eich hunan, a dedwyddwch eich cydgreaduriaid? A ydych yn gwneyd y defnydd o'ch manteision sydd yn gweddu i chwi, ac yn profi yn ymarferol eich bod yn weinidog da i Iesu Grist? A ydych chwi yn meddwl eich bod mor selog, mor ymroddgar a gwresog yn ngwasanaeth Duw a gwelliant dynol â'r apostol Paul? Sut y teimlech feddyliwch pe cyfarfyddech â Christ Iesu ar yr adeg bresennol? A deimlech fel pe buasech wedi cyflawni eich dyledswydd yn y byd? A deimlech fel pe byddech wedi gwneyd cymmaint ag a ddylech i hyrwyddo ei achos a dwyn oddiamgylch yr amcanion goruchel oedd ganddo ef mewn golwg bob amser, a thros y rhai y bu byw a marw? Neu a deimlech yn gywilyddgar oblegyd eich cysgadrwydd a'ch diofalwch gyda golwg ar achos y gwirionedd a dynoliaeth, ac wedi caniatau iddo, mor bell ag y mae a fynoch chwi ag ef, i nychu a marw? A ydych chwi yn cwyno oblegyd nad yw "YR YMOFYNYDD" yn cynnwys cyfansoddiadau mwy galluog, gwreiddiol a darllenadwy? A ydych chwi yn medru cyfan-

soddi? Os ydych, a ydych yn meddwl nad oes yr un ddyledswydd arnoch chwi i arfer eich dawn er goleuo eich cyd-ddynion? Os nad yw y cyhoeddiad y peth y dymunech iddo fod, ac os nad oes ynddo gymmaint o amrywiaeth ag a ddylai fod, a ydych yn meddwl eich bod *chwi* yn esgusodol am omedd gwneyd *un* ymdrech i'w wella? A ydych yn ofni sarhad neu erledigaeth? A ydych yn ofni colli eich swydd, neu eich cyfeillion? A ydych yn caniatau i'ch ofnau i'ch atal rhag derbyn a chyffesu y gwirionedd? A ydych yn caniatau i'ch ofnau atal rhag rhoddi i fyny gyfeiliornad a'i wrthwynebu? A ydych yn ofni cael eich ysgymmuno o'r eglwys, ac a ydyw ofn ysgymmundod yn peri i chwi gelu eich gwir syniadau, a mogi llais cydwybod? A ydyw y llith o Gwmbychan, yr hwn a ymddangosodd yn yr Ymofynydd mis Ionawr, wedi cael y sylw a ddylai? A ydyw yr ysgrifenydd wedi gwneyd yr hyn allai dros yr achos mae yn ei anwylo yn y lle? A ydyw ein gweinidogion anwyl wedi yngan gair yn nghylch yr hyn a awgryma? A oes un sylw wedi cael ei wneyd ar y llythyr, a ymddangosodd yn ddiweddar yn ein cyhoeddiad, o eiddo un o gymmydogaeth Llanbedr, parth ein Hysgol Sul? A ydyw y pwnc yn deilwng o sylw pellach?

Atebwch y gofyniadau uchod i chwi eich hunan, a throsoch eich hunan, o flaen Duw, yr hwn yw chwiliwr y galon, a phrofwr yr aren. Ymddygwch yn onest atoch chwi eich hunain, ac na esgeuluswch ar un cyfrif waith mawr a phwysig bywyd; na chollwch olwg ar yr amcan goruchel oedd gan y Tad nefol mewn golwg wrth eich dwyn i fodolaeth a'ch danfon i'r byd. Da chwi, gwnewch bob ymdrech i wella y byd fel y delo yn fwy tebyg nag ydyw yn bresenol, ar lawer o ystyron i'r nefoedd. Bydded i bawb dynion ddangos yn fwy amlwg nag y mae llawer wedi dangos hyd yma, na allant fod yn ddedwydd oddieithr eu bod yn argyhoeddedig o'r ffaith eu bod yn aberthu eu hunain i wasanaeth ein Creawdwr cariadlawn; i bleidio y gwirionedd pur, fel mae yn yr Iesu, ac er daioni pawb o'n cwmpas. B.

TAITH DRWY EWROP AC ASIA.

GAN Y PARCH. E. W. HUMPHREYS.

[*Parhad o Rifyn Ebrill, tudalen* 43.]

Dyma ni ar ben Vesuvius. Ah! le ofnadwy! Yr unig le mewn taith o 1,700 o filldiroedd y bu ofn arnaf. Nid oedd ond dau o honom ni fel trafaelwyr i fyny. Yr oedd yno ar yr amser o 10 i 12 o'r dynion mwyaf garw ac amheus eu cymmeriadau. Yr oeddem am wneyd ein goreu o'r golygfeydd a'n cylchynent. Yr oedd y gwynt yn gryf tra yr oeddem ar y mynydd; *sulphur* afiach y ceudwll tanllyd yn ymgymmysgu a'r awyr a anadlem. Pan ar y coryn uchel nid allem weled rhyw lawer, am fod y colofnau mwg yn ymddyrchafu gan guddio

prydferthwch yr olygfa. Dywedwyd wrthym fod rhai weithiau yn myned i lawr i geudod safnol y mynydd drwy gynnorthwy rhaff er gweled ei olygfa fewnol. Weithiau byddai pobl yn colli eu bywydau felly. Tebyg fod llawer o'n darllenwyr wedi darllen hanes am y ddwy dref fawr a guddiwyd gan y lafa yn y flwyddyn 79 o oed Crist. Darfu Pliny yr henaf golli ei fywyd yno. Yr oedd y ddwy dref, Pompeii ac Herculaneum, wedi eu dinystrio agos yn gyfangwbl. Ac mhen amser adeiladwyd tref arall ar weddillion Herculaneum. Yn ddamweiniol er ys amser bellach daethpwyd o hyd i'r hen ddinas ag oedd wedi gorwedd gannoedd o flynyddoedd mewn ebargofiant, drwy i weithwyr ag oeddent yn cloddio ffynnon dori i mewn i wagder islaw, yr hwn a drodd allan yn balas ardderchog, sef un o adeiladau yr hen ddinas enwog. Byth oddiar hyny y mae dynion wedi bod yn gweithio ac yn dadblygu hynafiaethau rhyfeddol y lle. Y mae miloedd o ddarnau celfyddydol, dodrefn, erthyglau llenyddol a phapyrau, a channoedd o gyrff wedi eu tynu allan o ddinas y llydw. Y mae llawer mwy o bethau wedi eu tynu allan o Pompeii nag sydd o Herculaneum. Gellir cerdded am filldiroedd yn hen heolydd culion tanddaearol Pompeii; a dywed yr arweinwyr beth oedd enwau y personau ag oeddynt yn byw yno pan gymmerodd yr *eruption* le. Yr oedd celfyddyd yn uchel yr amser hwnw, a'r awdurdodau yn fanol iawn gyda threfniadau trefol. Yr oedd rhif ar y drysau yn nghyd ag enw y preswylydd ar bob ty. Yr oedd y papyrus a gafwyd yno wedi dal ei argraff yn rhyfeddol, er iddo fod yno dros 1800 o flynyddoedd. Yn y Museum yn Naples gellir gweled miloedd o bethau a gafwyd allan oddiyno. Yr oeddem yn synu wrth edrych ar gywreinrwydd yr oes hono o'r byd; yn neillduol wrth edrych ar y cyrff yn y tai yno yn yr un sefyllfa ag oeddent pan ddaliwyd hwy gan y gyflafan. Gwelid y milwr yno a'i arf yn ei law. Gwelid dynes yno wedi ei dal pan yn cerdded. Yr oedd y dillad a'r corff yn hynod naturiol, etto yr oedd y naill â'r llall wedi caledi fel y garreg (petrified). Yr oedd un law i ddynes wedi ei thori ymaith wrth yr arddwrn, a'r llall yn hollol naturiol. Wel, daeth yr amser i ddychwelyd yn ol i Naples, a buom yn llwyddiannus yn mhob ystyr. Yna troisom ein golygon tuag

ALEXANDRIA.

O gwmpas 12 o'r gloch, a.m., Medi 27ain, dyna ni yn cymmeryd bwrdd y llong Egypto (Egypt), ac yn y prydnawn gadawsom *bay* swynol dinas Naples, ac erbyn boreu dydd Llun yr oeddem yn agos gyferbyn a mynydd tanllyd Stromboli. Dywedai y cadben wrthym pe buasem wedi codi awr yn gynt cawsem weled y fflamiau enfawr yn dyfod allan o enau y mynydd; ond y pryd hwnw yr oedd newydd dynu ei anadl ato. Tua chanol dydd Llun troisom i mewn i dref Messina. Yr oedd y dref hono yn enwog yr amser gynt. Meddylid gan y Groegiaid fod dwy dduwies, o'r enw Scylla a Charybdis, wedi bod yn llywodraethu y cyfyngfor hwnw; y naill yn eistedd ar y graig ar dueddau Itali, a'r llall yn berwi mewn pwll tro garw ar ochr Sicily. Ni chawsom yr anrhydedd o fyned allan o'r llong yno, am mai o

Naples yr oeddem wedi cychwyn, a bod y cholera yno. O yn agos i Messina yr oeddem yn gweled yr hen Etna fawr, 10,500 o droedfeddi o uwchder, a'i dri *crater* mwg yn y golwg, ac eira oesol ar ei goryn. Wedi myned drwy Gulfor Messina, daethom i olwg mynydd Etna drachefn. Yr oeddem y tro yma yn agos iddo, ac yr oedd cryn lawer o urddas yn perthyn i'r olygfa. Yr oeddem yn awr yn tramwy hen lwybr a llawer o gofnodion hanesyddol yn perthyn iddo. Wedi gadael Ynys Sicily daethom i olwg Peloponnesus, rhandir Groegaidd; cyssylltir enwau Lycurgus a Leonidas ag ef. Hwynthwy, meddir, drwy eu gwroldeb, a gadwodd y wlad rhag cael ei dinystrio gan y miloedd Persiaid dan Xerxes fawr. Yma mae yn debyg yr anfarwolodd Homer ei enw, drwy ganu yr Iliad sydd heddyw yn destyn edmygedd y bardd a'r llenor. Bu yn rhyfel waedlyd yma cydrhwng Achilles, Ajax, Ulysses a Nestor o du y Groegwyr, a Hector Fawr a'i gyd-Gymreigwyr o du y Troiwyr; a dywedir fod y duwiau wedi cymmeryd rhan ynddi yn herwydd dwyn Helena, gwraig y brenin. Y mae enw arall mwy enwog nag enw Homer wedi ei gyssylltu â'r lleoedd hyn, sef enw Paul. O gwmpas yno y bu efe ar ei deithiau, ac yn cyfarfod â'r Euroclydon a'r gwyntoedd ystormus. Dyna ni yn pasio ynys Crete, hafan dawel, lle y dymunai Paul aros dros y gauaf. Gwelem draw yno hen fynydd Ida, lle y ganwyd Jupiter, a'r lle y buwyd yn corddi pair Ceridwen, dan y brenin Sadwrn. Yr oedd llawer iawn o syniadau hapus yn dyfod i'n cof tra yn teithio Mor y Canoldir.

Dyma ni wedi bod bum' diwrnod ar for y Canoldir, a dyma'r Aifft yn y golwg. Cawsom dywydd rhagorol yr holl daith, oddieithr yr Euroclydon bach a gafwyd ar ddechreu y daith. Neithiwr, hyd yn hwyr iawn, buom ar y *deck* yn dysgwyl gweled Goleudy Alexandria, a daethom i fewn i'r porthladd yn ddyogel. Y mae y tir o gwmpas y dref yn isel a gwastad, yr awyr a'r dyfroedd yn ymgusanu y naill y llall yn y gorwel draw. Gwelir llawer o felinau gwynt ger ymylau y mor, yma a thraw. Y mae rhyw deimlad dyeithr yn ein meddianu wrth feddwl ein bod yn myned i'r Aifft; gwlad yr hen Pharoaid gynt; gwlad lle bu Jacob, Joseph, Moses, Aaron, a Miriam, Alexander a'r Plotemies mewn bri mawr. Gwlad y Pyramidiau, y Phenix, y colofnau a'r beddrodau; Gwlad y Nilus, Goshen a'r Mor Coch, a channoedd o ryfeddodau ereill y cofir am danynt gydag edmygedd parchus, a chyda theimladau anwylaidd. Ah! dyna y wlad y buwyd yn siglo cryd gwareiddiad filoedd o flynyddoedd yn ol; erys myrdd o gynnyrchion yr hen oesau yn brawf o allu y meddwl dynol. Erys yr hen Byramidiau oesol er cyn hanes. Colofn Pompey, un gareg fawr yn mesur 85 troedfedd o hyd, a naw o drawsfesur, sydd rywbeth y petrusai yr oes hon pa fodd i'w chloddio, ei symmud, a'i chodi. Wel, dyna ein llong yn codi *steam* ac yn cychwyn tua Joppa, lle y mae wyth o'n cwmpeini (Americaniaid ac un Sais) yn bwriadu myned. Y mae 20 o Arabiaid, 40 o geffylau, a saith *tent* at ein gwasanaeth. Dyna gynfas melyn yn cael ei daenu ar y *mast* yn dywedyd mai i'r *jail* yr oeddem yn myned. Y mae yn wybyddus fod gwledydd gwaraidd yn sefydlu *quarantines*, er dyogelu eu trigolion rhag clefydau heintus.

Felly yr oedd pan diriasom ni yn yr Aifft. Yr oedd y *cholera* yn ddrwg iawn yn y prif drefydd, ac yn mhorthladdoedd Itali; felly, ni allem gael yr anrhydedd o droedio tir yr Aifft heb fyned i'r *jail* am bump diwrnod, er cael prawf ar sefyllfa ein hiechyd. Yr oedd yr hen garchar ar y cyfan yn dda—y bwyd, y gwely, a'r ystafell llawn cystal ag y dysgwyliem mewn lle o'r fath. Yr oedd pedwar gradd yn y carchar, yn ateb i gyflyrau ac amgylchiadau pobloedd. Cawsom ni yr anrhydedd o fod yn y gradd uchaf. Yr oeddem yn gorfod talu ein treuliau ein hunain. Yr oedd ein bwyd a'n lletty yn costio deg swllt y dydd, a'n tendio ugain *franc*. Yr oeddem ni yn gwmpeini difyr annghyffredin, yn neillduol pan feddyliem na allem siarad ond ychydig â'n gilydd. Yr oedd pobl o wahanol ieithoedd yno—Italiaid a Groegiaid, a gwyr bucheddol o Iuddewon; rhai o honynt yn awyddus i ddysgu siarad Saesoneg, ac yn parablu ambell i air yn ddoniol dros ben. Ni chlywsom ddim Cymraeg yn cael ei siarad yno. Treuliasom, ar y cyfan, ein diwrnodau yn y carchar yn ddifyr. Pan yr aethom i'r carchar yr oeddynt yn dyweyd fod pum' cant i fewn yno yn barod, a phan aethom allan yr oedd yno fwy. Teimlem, pan gawsem ryddhad, yn hapus, a bloeddiem â'n holl egni. Yn ystod ein harosiad yn Alexandria, daeth llong neu ddwy i fewn yn llwythog o Fahometaniaid, ar daith bererindodol i Mecca. Peth dorus i ni oedd gweled y fath sel a brwdfrydedd ag oedd y bobl hyny yn arddangos. Dichon y bydd gair o eglurhad pellach ar y modd y dygwyd ni i'r carchar yn dderbyniol gan ein darllenwyr. Pan gyrhaeddasom y porthladd, ein bwriad oedd myned ar fwrdd un o agerlongau Awstria i Joppa, ond dyna gwch mawr yn rhwyfo i ochr ein llong, a dyna y swyddogion a'r milwyr yn ddiseremoni yn ein gyru o'r llong i'r cwch, ac ymaith â ni i'r lan. Yno yr oedd trên i'n derbyn, a ffwrdd â ni am ddwy filldir i'r wlad, lle yr oedd y Carchardy. Yr oedd yr olygfa hyd ochr y ffordd yn swynol ac ardderchog yr olwg arni. Yr oedd coedydd *dates*, *oranges*, *olives*, *bananas*, a phomgranadau, i'w gweled ar bob tu. Deallasom wedi hyny fod llawer clwm o'r *dates* hyny yn pwyso cymmaint a 25 pwys yr un. "Every prospect pleases, and only man is vile." Yr Arabiaid a'r Coptiaid oedd y meistri, a ninau yn weision.

(I'w barhau.)

TRYSORFA'R GWEDDWON.

Yr ydym o bryd i bryd wedi galw sylw ein darllenwyr at y drysorfa uchod, ond drwg genym ychwanegu, i ychydig bwrpas. Yr ydym newydd dderbyn nodyn oddiwrth yr Ysgrifenydd, y Parch. Lewis Evans, yn dywedyd nad oes dim wedi ei dderbyn oddiwrth ein henwad ni er ys dwy flynedd. Dyben y drysorfa yw cynnorthwyo ychydig ar weddwon ein gweinidogion, ac y mae wedi bod o les annrhaethol i

lawer cyn hyn. Fe wyr ein darllenwyr fod cyflogau ein gweinidogion mor fychan, fel nad oes fawr gobaith iddynt wneuthur llawer o ddarbodaeth ar gyfer dygwyddiadau'r dyfodol. Wrth gwrs mae digon o esgusodion i'w cael i beidio rhoi, os chwilio y rhai hyny yr ydys. Esgus rhai yw fod genym drysorfeydd ereill o well; ond pe byddem yn galw am help yno, caem ryw esgus cyffelyb yn ddiamheu. Y pwnc gyda'r cyfryw ddynion yw, nid gwneuthur daioni, ond cael amddiffyniad i'r boced. Mae'n anhawdd genym gredu fod ysbryd haelioni wedi marw yn ein plith, ac y mae'n anhawdd genym gredu hefyd fod yr un gynnulleidfa mor wan nas gall wneuthur peth help unwaith mewn blwyddyn, neu unwaith mewn dwy flynedd, at achos mor dda. Enw'r ysgrifenydd yw y "Parch. Lewis Evans, Newport, Monmouth." Gair wrth derfynu am wobr Mr. Evans. Bydd yn dda gan ein darllenwyr glywed fod "cannoedd o bunnau wedi dyfod i law yn barod, a bod y Bedyddwyr a'r Annibynwyr yn cydweithio yn galonog, ac yn uno i gyssuro a llesoli un sydd wedi gwneuthur cymmwynas fawr â gweddwon ac amddifaid y tri enwad," a'r pwnc yn awr yw, beth wnaiff Undodiaid? Anfoner y cyfraniadau at y wobr i ofal Mr. Benjamin Evans, Ex-mayor, Newport, Monmouthshire.

HEN DY-CWRDD Y NOTTAIS.

Mae'n hyfrydwch genym gyflwyno i sylw ein darllenwyr yr

APPEL

canlynol, ac yr ydym yn dymuno i'n hen dad parchus, Mr. Lloyd a'i gynnulleidfa, bob llwyddiant yn eu hanturiaeth. Yr ydym wedi dywedyd fod eisieu capel newydd yn y Nottais er ys llawer dydd, ac wedi anog rhai o'r aelodau arianog at hyny o ddyledswydd. Gobeithiwn y caiff yr hen ŵr fyw i weled y tŷ newydd wedi ei gwblhau, a phob dyledion wedi eu talu, ac y bydd i Ragluniaeth dyner ei gadw am ryw dymhor etto i wasanaethu'r gynnulleidfa lle mae wedi bod yn gwasanaethu cyhyd. Mae'r appel fel y canlyn:—

Yn gymmaint a bod capel y Nottais wedi mynéd yn rhy fach ac yn rhy anaddas i ateb dybenion y gynnulleidfa, yr ydys wedi penderfynu ei dynu i lawr i'w ail godi yn yr un fan, ar ddull fyddo'n cydweddu yn fwy â chwaeth yr oes bresenol; ond gan fod y rhan amlaf o'r gynnulleidfa o amgylchiadau isel, ac yn analluog i gyfranu fel y dymunent at y treuliau angenrheidiol, y maent dan orfod i appelio at haelioni a theimlad da eu cyd Gristnogion am gynnorthwy arianol i ddwyn y gwaith i ben. Mae amcan-gyfrif y draul at godi y capel, yn nhyd ag ysgoldy, yn 550 o bunnau.

Yr ydys yn gobeithio y gellir agor y capel newydd yn Hydref y flwyddyn bresenol. Derbynir cyfraniadau gyda diolchgarwch gan y gweinidog, y Parch. Titus Lloyd.

Ebrill, 1876.

ESGYMMUNDOD.

Mae'r Parchedig Hugh Stowell Brown o L'erpwl, yn ei gyhoeddiad bach bywiog, yn nodi allan y gwahaniaeth yn y modd y mae Paul yn ymdriu a chyfeiliornad, a'r modd y mae yn ymdriu a phechod. Gwnai gau allan o gymdeithas yr eglwys, y rhai oeddynt yn byw yn ddrwg; ond am y Corinthiaid hyny, y rhai a wadent athrawiaeth yr adgyfodiad, er fod yr apostol yn ei ystyried yn wirionedd sylweddol Cristionogaeth, ymresymai à hwynt, ac ni thorai hwynt allan. "Ar y cyfan," ebai Mr. Brown, "mae'r eglwysi wedi troi cyullun Paul wyneb i waered, maent wedi *winkio* ar lawer i anfoesoldeb, ond wedi condemnio'n ffyrnig y cyfryw feddylddrychau a ystyrient hwy yn wrthwynebol i'r Iawn ffydd. Yn anfynych mae'r eglwysi, os erioed, wedi carcharu dynion am drachwant, neu eu llosgi am feddwi, yn amseroedd gwaethaf erledigaeth. Mae dynion wedi cael byw fel y mynent, ac ymdreiglo mewn pob math o ddrygioni brwnt, cyhyd ag nad oeddynt yn amheu un erthygl ffydd; ond yr oedd unrhyw eofndra yn y cyfeiriad yma yn dwyn i lawr daranau y ddeddf eglwysig ar y dyn mwyaf defnyddiol a rhinweddol. Ac yn awr, gwnelai llawer eglwys ag sydd nid yn unig yn rhoddi cysgod o fewn ei chorlan, ond yn pennodi i swyddi o anrhydedd ac atebolrwydd, ddynion ag ydynt ddiarebol drachwantus am elw bydol, gwnelai gyhoeddi, fel yn anaddas i'w chymdeithas y dyn hwnw, unig fai yr hwn yw, nad yw yn eithaf clir ar bwnc y drindod, parhad y saint mewn gras, neu dynged diweddaf pechaduriaid."

Gwnelai llawer iawn o Gristionogion proffesedig yn dda i gadw mewn cof, y ffaith yma sydd yn cael ei gosod allan gan Mr. Brown. Er mor ddwys y teimlai Paul y niwed a wnaed gan y rhai a wadent yr adgyfodiad i achos Crist. Addysgai hwynt mewn addfwynder ysbryd, ac fel y dywed Mr. Brown yn gywir iawn, "Ni chewch yr un gair digllawn yn yr oll y mae'n ei ddywedyd ar y pwnc."

AWGRYM DEFNYDDIOL I UNDODIAID.

Mae pobl ieuainc yn tyfu i fyny yn ein cynnulleidfaoedd, y rhai nid oes ganddynt un opiniwn o unrhyw fath yn nghylch Duw, Crist, pechod, iechydwriaeth, sylfeini moesoldeb, seiliau cred mewn Creawdwr, mewn dyledswydd, ac mewn anfarwoldeb. Yn lle cael eu haddysgu a'r athrawiaeth, meithrinir hwy ar deimlad. Yn lle gwirionedd, maent yn cael cariad. Y canlyniad yw drifftiad rhwydd i unrhyw eglwys, neu gred neu opiniwn, a ddygwyddo eu denu. Maent yn rhwydd ddigon yn dyfod yn Babyddion neu yn Atheistiaid, fel y byddo damwain yn penderfynu. Os cyfarfyddant à Jesuit, derbyniant y Pab yn llawen; os deuant ar draws dysgybl i Huxley neu Spencer, gyda'r un boddlonrwydd ymwrthodant a Duw; a hyn oll er mwyn

rhyddfrydigrwydd a goddefgarwch! Ond gwybydder hyn, ei bod yn anmhossibl i oddef opiniynau pobl ereill nes byddo genych rai o'r eiddoch eich hunain. Allwch chwi ddim bod yn rhyddfrydig tuag at y rhai fo'n gwahaniaethu oddiwrthych, os na fyddwch chwi yn gyntaf yn gwahaniaethu oddiwrthynt hwy. Pa fath oddefgarwch mae'r asglodyn, sydd yn nofio ar yr afon, yn ei ddangos at y llif sydd yn ei gario i ffwrdd? Clywais stori am ferch ieuanc, wedi ei dwyn i fyny yn un o'n cynnulleidfaoedd yn Boston, ag sydd yn hollol nodweddiadol. Yr oedd ar ymweliad â theuluoedd tlodion Gwyddelig, i'w cynnorthwyo, a chyfarfyddodd â'r offeiriad Pabaidd. "Mae'n rhaid i chwi beidio meddwl," meddai hi, "fy mod i am eu troi i fy opiniwn fy hunan." "Beth yw eich opiniwn?" ebe'r Pabydd. Ac yna fe ymddangosodd nad oedd ganddi yr un opiniwn. Ond yr oedd ganddo ef: ac yn mhen ychydig amser, darfu iddo ei throi i'w olygiadau ei hunan, ac y mae hi wedi parhau yn Babyddes byth oddiar hyny.—*Dr. James Freeman Clarke, o America.*

ADOLYGIAD Y WASG.

TELYN DEWI; sef gwaith Prydyddawl y diweddar Barch. David Davis, gynt o Gastell-Hywel, Ceredigion. Ail argraffiad, gydag ychwanegiad. Llanbedr: Argraffedig a chyhoeddedig gan J. Davis. MDCCCLXXVI.

FELLY mae'r ail argraffiad o Delyn Dewi wedi ymddangos o'r diwedd, a da iawn genym ei weled, a chredwn y bydd yn dda gan gannoedd o ddarllenwyr yr YMOFYNYDD ei weled hefyd. Ymddangosodd yr argraffiad cyntaf yn 1824, ac yr ydym wedi synu lawer gwaith na buasai Cymru wedi galw am argraffiad arall er ys llawer dydd. Gobeithiwn y caiff y cyhoeddwr anturiaethus werthiad buan ar yr oll o'r argraffiad presenol, ac y bydd iddo gael ei ganlyn gan drydydd a phedwerydd argraffiad yn mhen amser byr. Mae "Telyn Dewi" yn teilyngu hyn, nid ydym yn gwybod am yr un gyfrol o farddoniaeth Gymreig, a garem yn fwy ei gweled yn llaw pob dyn ieuanc nâ hon. Mae'r argraffiad presenol yn cynnwys byr gofiant yn gystal a darlun o'r awdwr; ond nid yw'r darlun cystal â'r hen un. Mae wedi ei rwymo yn hardd, wedi ei argraffu ar bapur da, ac yn cael ei werthu am dri swllt a chwe' cheiniog. Mae llawer o wallau'r hen argraffiad wedi eu symud ymaith, ond y mae rhai etto yn aros. Nid oedd Golygydd yr argraffiad cyntaf yn nemawr o Gymro, ac nid yw'n ymddangos fod Golygydd yr ail wedi cymmeryd cymmaint o ofal ag a ddylasai bob amser. Nid ydym yn ystyried a ganlyn yn welliant (tud. 69):

> Deddfau glan, ac ofn yr Arglwydd
> Yn yr enaid, a'u gwareda, rhag gwaradwydd.

Tud. 143, dylid darllen

> *For* losing fair Eliza.

Yn y Cofiant, dylai'r Englyn ar Brydyddiaeth Twm o'r Nant ddarllen fel yma :

Cymysged digred digri'—ei Saesnaeg
For Saes'ning rhyw ddwli ;
Anaddas dweyd mewn gweddi—
O God mawr *be good* i mi.

Seas'ning—Seasoning, h.y., rhywbeth i osod tipyn o *relish* arno, i'w wneyd yn fwy blasus.

DARNAU BYRION.

Y Plentyn yw Tad y Dyn.—Felly dywed y bardd Wordsworth, ac y mae yn golygu fod y cymmeriad ydym yn ffurfio mewn mabandod i aros gyda ni trwy ystod ein bywyd dyfodol. Fel y mae y plentyn y bydd y tad. Bydd bachgen segur hunanol yn ddyn segur ac hunanol. Bydd merch ofer ac annoeth yn ddynes ofer ac annoeth. Yn herwydd hyn dylem ddechreu pan yn ieuanc, i wylied a gweddio rhag i ni gael ein harwain i brofedigaeth. Y mae y plant sydd yn esgeuluso eu cymmeriadau, ac yn ffurfio arferion drwg, gan ddysgwyl y byddant yn well pan yn henach, mor annoeth â'r dyn hwnw sydd yn hau hadau drwg yn ei faes, gan ddysgwyl maes o law, i'w weled yn orchuddiedig gan gnydau da a ffrwythau têg. Pan welom ein hunain yn syrthio i bechod, dylem ymdrechu yn ei erbyn, a gweddio yn ddifrifol ar i Dduw greu calon lân ac adnewyddu yspryd uniawn o'n mewn ; gan ein dysgu i wneyd pob peth er ei anrhydedd.—*Young Days.*

Y Cadnaw nad oedd wedi colli ei Gynffon.—Rector Carfax, Oxford, wrth bregethu yn ddiweddar ar St. Paul, a wnaeth y sylwadau canlynol : Ond ymddengys y cyfryw hyny ag ydynt yn y dyddiau presenol yn hawlio mai hwy yn unig ydynt olynwyr uniongyrchol yr Apostolion, fel pe byddent yn meddwl nad oes yr un teitl na'r un swydd yn werth ei gael os bydd ereill yn ei fwynhau gyda hwy. Mae'r teitl 'parchedig,' yr hwn oedd gynt yn cael ei roddi i leygwyr teilwng, er ys hir amser bellach yn cael ei gyfyngu i'r weinidogaeth Grist'nogol o bob enwad. Gwrthododd un yn ddiweddar ganiatau i weinidog Wesleyaidd osod y teitl wrth ei enw ar gareg fedd ei ferch. Cafodd ei gadarnhau yn hyny gan esgob, yr hwn sydd yn rhy ddysgedig i fod yn ddoeth, a chan ddau farnwr y rhai ydynt yn rhy eglwysyddol i fod yn feirniadol (judicial). Mae brawdle pwyllog a diragfarn wedi caniatau yr hyn a wrthodent hwy. Ac yn awr mae rhai o'n hoffeiriad yn ymwrthod yn gyhoeddus â theitl, yr hwn sydd, meddent, yn cael ei halogi, trwy gael ei ddefnyddio gan Annghydffurfwyr. Darfu i gadnaw, medd y chwedl, ar ol colli ei gynffon, geisio darbwyllo ei gydgadnoaid i ymwrthod â'u cynffonau. Ond pe byddai'r cadnaw hwnw yn debyg i'n hoffeiriaid aristocratadd, gwnai gnoi ei gynffon ffwrdd o ffei fod cynffonau mor gyffredin.—*Rock.*

Marwgofion.

Chwefror 26, wedi byr gystudd, Mrs. Jones, Cefnllan, ger Pontardawe, yn 84 mlwydd oed. Yr oedd yr ymadawedig yn enedigol o ardal Blaengwrach, Cwm Nedd. Arferai gyrchu i hen gapel Blaengwrach pan yn ieuanc; ac wedi iddi briodi a dyfod i fyw i Gefnllan, arferai yn gysson gyrchu i addoli i'r Gellionen. Nid oedd na thywydd garw na dim a rwystrai Mrs. Jones fod yn absenol ar y Sul. Bu am flynyddau maith yn aelod selog yn y lle. A chan fod ei hamgylchiadau bydol yn dda, yr ydoedd yn gryn gynnorthwy at gynnal yr achos. Gwelir ei lle yn wag yn y Gellionen yn hir. Claddwyd hi yn mynwent Eglwys Llanguicke y Mercher canlynol. Pregethwyd yn y ty cyn cychwyn, gan y Parch. J. Evans, gweinidog Gellionen, oddiar 2 Cor. xviii. 19, i dyrfa fawr o bobl. Gweinyddwyd yn yr Eglwys, ac ar lan y bedd, gan y Parch. D. Jones, B.A., Vicar y plwyf. Felly rhoddwyd i orphwys yr hen chwaer dawel, garedig, a pharchus hon hyd ddydd y codi i gael rhan gyda'r saint yn y goleuni. Na fydded i'w phriod, yr hwn sydd oddeutu yr un oedran a hithau, a'i hunig fab alaru, ond hytrach lawenhau am y bywyd duwiol a dichlynaidd a dreuliodd ar y llawr am dymhor maith. A bydded fod gwirioneddau'r efengyl yn ffynnonell o gyssuron a diddanwch iddynt, drwy'r gobeithion y maent yn roddi am ail gyfarfod etto ar fryniau tragywyddoldeb, lle na bydd rhaid ymadael mwy. J. E. G.

Chwefror 28, Mr. Jenkin Evans, Tynant Ciliau Aeron. Er fod yr hen frawd parchus hwn wedi gadael ei 93 mlwydd oed, yr oedd ei ymadawiad sydyn, digystudd, yn hollol annysgwyliadwg i'w blant a phawb o'i gymmydogion. 'Roedd yn ei iechyd arferol y dydd o'r blaen. Yn yr addoliad y boreu, ac yn yr ysgol, yn y capel yn y prydnawn, fel yr arferai bob Sabboth, lle nad oedd ei le byth yn wag, nac yn yr ysgol na'r addoliad. Er ei oed nid oedd ei zel yn llai dros yr achos yn y lle; a mynych achwynai ar ddifaterwch dynion ieuanc am yr Ysgol Sul, a'r addoliad cyhoeddus. Am hyn nid yw i'w ryfeddu. Yr oedd ef wedi goddef pwys y dydd a'i wres. Dechreuodd ei yrfa grefyddol gyda'r Undodiaid yn yr Ystrad, dan weinidogaeth Mr. James, o'r Gellionen, pan oedd erlid mawr ar Undodiaeth yn y parthau hyn. Yr oedd rhagfarn gymmaint yn eî herbyn, fel yr anfonodd Esgob Tyddewi, glerigwyr neillduol i draddodi pregethau yn Eglwys Ystrad i wrthbrofi, ac fel y dywedant i ddiddymu Sosiniaeth. Afreidiol yw dweyd iddynt fethu yn hyn o amcan. Buasai yn fwy doeth i'w arglwyddiaeth roddi iddynt gynghor Gamaliel i'r Sanhedrim, a dweyd wrth ei glerigwyr rhagfarnllyd, os o ddynion y mae ei hathrawiaeth, hi a ddiddymir, ond os o Dduw y mae, nis gellwch chwi ei diddymu. Bu yn ddiwyd fel amaethwr, ac yn dra llwyddiannus yn y byd, yr oedd bob amser yn barod i gynnorthwyo lle gwelai angen. Ni chai un dyn tlawd fyned o'i ddrws heb gymhorth neu letty os byddai angen. Gwyddai y teulu crwydrol yn dda am Tynant, ac fod yno aelwyd gynhes, digon o fwyd i bob dyn, ac nad allai Jenkin a Pegi, fel eu gelwid, dan un amgylchiad ballu bwyd a lletty i'r neb a ofynai am dano. Rhoddodd gynnorthwy i lawer mewn angen yn ei ddydd, a chyfranodd yn hael at lawer o achosion da. Teimlai yn wresog dros yr athrawiaeth Undodaidd, a cheir colled mawr ar ei ol yn enwedig yn eglwys fechan y Ciliau, lle y bu yn aelod defnyddiol am lawer o flynyddau. Mae yr eglwys uchod dan lawer o rwymau iddo. Rhoddodd er ys rhai blynyddau yn ol *les* o 999 ar ddarn o'i dir i'r gynnulleidfa i adeiladu capel arno, o herwydd nad oes un *les* ar y capel presenol, a bod dau gini o rent arno, yr hyn sydd yn gwasgu ar gynnulleidfa fychan. Gobeithiwn y daw yr amser rywbryd os nid yn fuan, pan yr adeiladir arno fel y bwriedir. Teimlir hiraeth dwys ar ei ol nid yn unig gan ei blant, ei berthynasau, a'r eglwys y perthynai iddi, ond gan bawb a'i hadwaenai. Ar ddydd ei angladd, pregethodd y Parch. W. Rees, Rhydygwin, oddiwrth 2 Tim. iv. 7. Yna hebryngwyd ef mewn elorgerbyd yn cael ei ganlyn gan dyrfa anarferol o fawr o gerbydau, gwyr ar geffylau ac ar draed i fynwent Capel-y-groes, i gydorphwys a'i briod anwyl yn yr un bedd. Gweinyddwyd ar lan y bedd gan y Parchn. J. Davies, Alltyplaca, a T. Thomas, Pantydefaid. Na fydded i'w blant a'u wyrion annghofio eu rinweddau, nac esgeuluso dilyn yr esiamplau da gawsant gan eu rhieni. G. AB G.

Chwefror 11eg, Margaret Davies, Tynton, Cellan, yn 78 oed. Y mae'r hen yn ymadael o Caeronen a manau ereill, ac y mae hyn yn galw am weithgarwch mwy ar ran bechgyn a merched ieuanc ein cynnulleidfaoedd. Yr oedd yr ymadawedig yn wanaidd er ys amser maith, nes oedd bywyd o'r diwedd wedi myned yn faich. Hyderwn fod marw yn elw iddi. Boed i ddagrau hiraeth gael eu sychu ymaith gan gyfeillion a pherthynasau.

Ebrill laf, yn ddwy flwydd a hanner oed, wedi misoedd o gystudd caled, Thomas mab David a Mary Williams, Alltfawr, ger Llanwnen. Claddwyd ef yn mynwent Eglwys Llanwnen, a gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parchedig Mr. Jones yr offeiriad yn y ty a'r Eglwys. J. D.

Ebrill 9fed, wedi hir gystudd yn 63 ml. oed, Mr. Davies, Pentreshon, plwyf Llanbedr, Ceredigion. Claddwyd ef y Mercher canlynol, yn medd ei ewythr yn mynwent Capel-y-groes. Cyn cychwyn o'r ty, pregethodd y Parch. J. Davies i dyrfa fawr o wrandawyr galarus, a chynnorthwywyd ef yn y gwasanaeth gan y Parch. D. Evans. Dyn heddychol a hawddgar iawn oedd Mr. Davies, a theimlir colled a hiraeth mawr yn y gymmydogaeth a'r eglwys ar ei ol; ond ni a obeithiwn fod yr hyn sydd wedi bod yn golled i ni wedi bod yn elw iddo ef. Y mae teulu Pentreshon am ugeiniau o flynyddau, wedi bod yn noddwyr gwresog i'r achos crefyddol yn Alltyplaca, a hyderwn nad yw y diweddaf o'r teulu ddim wedi gadael.

Barddoniaeth.

ANGAU A'R GWANWYN.

Y mae fy nghyfaill hoff yn huno
  Yn ei orweddle cul, diswyn,
A mantell werdd y ddae'r yn pwyso
  Yn dawel ar ei fynwes fwyn.
Ac etto'r haulwen a dywallta
  Ei phelydr euraidd megys gynt
A'r gwanwyn siriol a ddychwela
  I bob cilfach ar ei hynt;
Y blodau hyfryd ymagorant—
  Y blodau driniai ef mor deg;
A'r adar mân eu cyngherdd gadwant
  Yn orielau anian chweg.
O haul, wyt greulon i dywynu
  Tra'm cyfaill yn ei wely gro;
Wyt greulon, wanwyn, i ddynesu
  Tra 'i enau anwyl ef yn nghlo;
O flodau, creulon ych i wenu
  Ac yntau yn y beddrod du;
O adar, creulon ych i ganu
  Ac yntau'n methu'ch gwrando chwi.
Ust, f' enaid prudd, gwna ymfoddloni
  I'r drefn sy'n llywio bywyd brau,
Llais cariad Duw yw'r oll a glywi—
  I'w gynghor mwyn gwna ufuddhau:
A oes un dydd o'th oes yn darfod
  Na syrth i'r bedd ryw gyfaill cu,
Er dichon nad wyt ti'n ei 'nabod,
  Mae'n llawn mor hoff a'th gyfaill di?
Nid ti yw'r unig un sy'n crio
  Am gydymdeimlad anian lwys,
Mae gwenau teg yr haul yn briwio
  Pob calon sydd dan alar dwys.
Mae gwisg y gwanwyn yn rhy ddestlus,
  Rhy deg yw blodau'r ddaear werdd,
A chân yr adar mân siaradus
  Ymddengys megys gwatwar gerdd.
Ond, ysbryd blin, gwna ymdawelu,
  Duw sydd yn gwybod beth sydd dda,
Yr haulwen deg, wyt yn geryddu,
  Ddwg falm i wella'th fynwes gla';
Y gwanwyn sydd yn d'od mewn mawredd
  I blanu tegwch ar dy wedd;
Y blodau daenant berarogledd
  Dros dy anwylyd yn ei fedd;
Yr adar rhwng y deiliog gangau
  Am dano wnant wylofus gwyn;
Cei dithau wel'd ryw ddydd yn ddiau
  Ei bod yn oreu er dy fwyn.
Fod gwir orfoledd a chydgordiad
  Cerddoriaeth dyner anian lon
Wedi eu huno gan Dduw'r cariad
  A chwynfan prudd d' alarus fron.
'Does eisiau i'r plentyn ufudd grio,
  Wrth roddi i'w dad, ei degan gwiw;
'Does eisiau i ddyn 'n ormodol wylo
  Tra mae ei gyfaill gyda Duw.

E. C. J.

"DUW, CARIAD YW."

[Bowring.]

Mae Duw o drugaredd a chariad yn llawn,
Rhydd lewyrch i'n llwybrau lle bynag yr
awn;
Gwna'n helaeth ein gwynfyd, gwna'n ysgafn ein briw;
Holl-berffaith Ddoethineb a Chariad yw
Duw.

Y mae cyfnewidiad yn ddiwyd ar waith,
Ac oes ar ol oes yn prysuro i'w thaith;
Ond mor ei drugaredd yn treio nid yw;
Holl-berffaith Ddoethineb a Chariad yw
Duw.

Yr awr f'o dywyllaf i'r olwg sydd wan,
Dry allan yn gysson ddaioni 'n y man;
O'r niwl ei ddysglaerdeb dywyna'n ffrwd
fyw;
Holl-berffaith Ddoethineb a Chariad yw
Duw.

Yn nglŷn â'n gofalon daearol mae Ef
Yn plethu cyssuron a gobaith y Nef;
'Mhob man ei ogoniant sy'n ddysglaer ei
liw;
Holl-berffaith Ddoethineb a Chariad yw
Duw. E. C. J.

Y BABAN YN HUNO.

Pa beth a barodd i'r hen wr i wylo?
Dim ond baban bychan yn huno;—
Hen wr oedd efe, lluddedig a blin,
Dan bwysau blynyddoedd, ac etto ei hun
Yn ieuanc ei galon
Er gwaethaf gofalon
Y byd a'i drafferthion;
Ond wele 'fe etto
Uwch ben yr un bychan y dagrau yn wylo.

Pa beth wnaeth i'r wych foneddiges i dario?
Pa beth a barodd i'w dagrau ddyliío!—
Y wych foneddiges
Y falch foneddiges
A edrychai mor oer a'r gem ar ei mynwes?
Dim ond baban bychan yn huno!

Pa beth wnaeth i angel dywedwch i oedi
Pan tua'i chartre'n ehedeg i fyny?
Pa beth wnaeth i'w llygaid
Mor ddysglaer, mor danbaid,
Y dagrau i wylo?
Ac etto er hyny
Mor felus i wenu!
Dim ond baban bychan yn huno!

I'R ADERYN DU.

O! mor beraidd yn fy nghlustiau
Yw dy lais Aderyn du;
Ceir arwyddion yn dy seiniau
Am newydd-deb anian gu.
Clywaf fiwsig megys telyn
Gan asgellog gor y wig,
Tithau arnynt megys brenin
Yn eu harwain a dy big.

O! mor foreu wyt yn canu
Ger fy mwthyn—gyda bri
Gan dy sain nis gallaf gysgu,
Cenad gwawr-ddydd wyt i mi;
Gwnai i'm calon lesg gyfodi
Uwch helbulon daear gron,
Trwy dy gathlau caf fy nerthi
Lwyr annghofio briwiau'r fron.

Ein rhybuddio gwnai yn unfryd
Fod yr Haf a'i ddyddiau'n dod,
Ac oer wyntoedd gauaf rhewllyd
Yn diflanu tan ei dro'd;
Mwyniant dyn sydd arno'n gwenu,
Dan len werddlas daear faith,
Pob peth fel yn cydweithredu
I'w roesawi ar ei daith.

A wyt ti? y per alawydd,
Yn ein cyfarch am yr haf,
'R hon a beri yn dragywydd
Yn ei harddwisg flodau braf.
Haf o wynfyd i breswylio,
Haf heb neb ei wedd yn drist,
Haf i'r cyfiawn fyddo'n cofio
Rhodio 'n ol gorchymyn Crist.

Trebanos. H. M.

ANRHYDEDDA DY DAD A'TH FAM.

Y garthen rawn a fu ar wely
Dy dad wrth orwedd yn y bendy,
A geidw'th fab i tithau i orwedd
Ar dy dowlod cyn dy ddiwedd.

Ficer Pritchard.

DYN ARIANGAR.

Dyn ariangar gar ei god—ei galon
A geula ar sorod;
Ei hunan yw pen ei nod,
Hyd ei yrfa nes darfod.

Caledfryn.

Y BEDD.

Y cyfaill peth da yw cofio—y bedd,
Lle byddi'n preswylio;
A chael hawl i freiniawl fro
Dedwyddwch, cyn dod iddo.

Horeb. E. T.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, ABERDAR.

TALIADAU.

S. E., Frowen; Mrs. E., Llanon; T. J. P., Blaenddewifawr; D. L. M., Brynaman; W. D. J., London; J. L., Dowlais; R. D., Aberayron; S. H., Cribin; T. E., Tynant. L. E., Newport.

PIGION O EMYNAU.

Yn awr yn barod, yr Ail Ran. Pris Ceiniog, neu Wyth Swllt y Cant.

D.S.—Bwriadwn ymosod o ddifrif ar y Llyfr Emynau yn ystod gwyliau'r haf. Mae rhwystrau annysgwyliadwy wedi codi yn ddiweddar, fel nas gallwn fyned yn mlaen â'r gwaith yn awr.

Yn awr yn barod, Pris 3s. a 6ch., wedi ei rwymo yn hardd,

AIL ARGRAFFIAD O

TELYN DEWI,

SEF GWAITH PRYDYDDAWL Y PARCH. DAVID DAVIS,

GYNT O GASTELL-HYWEL, CEREDIGION.

Fel mae yn hyspys i lawer fod y Gwaith uchod allan o Brint er's blynyddau, a diamheu y bydd y ddangosiad yr Ail Argraffiad hwn yn hyfrydwch ac yn dderbyniol gan Feirdd a Llenorion Cymru. Y mae yn cynnwys llawer o ddarnau o'i waith nad oeddynt yn yr Argraffiad cyntaf—yn nghyd â Hanes ei Fywyd, a Darlun hardd o'r Awdwr.

Erfynir ar bawb a ewyllysiant gael copi o'r Gwaith uchod anfon eu henwau yn ddioed i'r cyhoeddwr, J. DAVIS, Argraffydd, Llanbedr.

DEG O WAHANIAETHAU RHWNG

UNDODIAETH AC "IAWNFFYDDIAETH,"

Cyhoeddedig ar draul y "British and Foreign Unitarian Association."

Pris Naw Ceiniog y Dwsin, neu 3s. 6ch. y Cant, Post Free.

CRISTIONOGAETH UNDODAIDD,

GAN SAMUEL SHARPE.

4 tdd. Pris 10s. y fil, 1s. 3c. y cant, 2 geiniog y dwsin.

CYFFES FFYDD UNDODWR,

GAN JOHN PAGE HOPPS.

24 tdd. Pris naw ceiniog y dwsin, neu 3s, a 6c. y cant.

Dyma gyfleusdra i gyfeillion wneuthur rhywbeth tuag at daenu egwyddorion Undodaidd. Anfonir hwy yn rhad trwy'r post am y telerau uchod. Anfoner at The Editor of Yr Ymofynydd, Mount Pleasant Garden, Aberdare.

AT EIN DARLLENWYR.

Telerau.—Un copi, 3c., gyda'r post 3½.; ar dri chopi a rhagor telir y cludiad.

Anfoner mewn stamps neu order at—"Rev. W. James, B.A., 36, Gadlys Street, Aberdare."

☞ *Pob Archebion a Gohebiaethau i'w hanfon yn gyfeiriedig,—*

The Editor of "Yr Ymofynydd,"
Mount Pleasant Garden,
ABERDARE.